Healthcare Inspectorate Wales
Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru

DRIVING IMPROVEMENT THROUGH INDEPENDENT AND OBJECTIVE REVIEW

# Arolygiad Practis Deintyddol Cyffredinol (lle rhoddwyd rhybudd)

## Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro

## Practis Deintyddol Rhiwbeina yn The Pines

9 Mehefin 2015

Gellir darparu'r cyhoeddiad hwn a gwybodaeth arall gan AGIC mewn fformatau neu ieithoedd eraill ar gais. Bydd oediad byr wrth i ieithoedd a fformatau eraill gael eu cynhyrchu pan ofynnir amdanynt i ddiwallu anghenion unigol. Cysylltwch â ni am gymorth.
Pan gânt eu cyhoeddi, bydd copïau o'r holl adroddiadau ar gael ar ein gwefan neu drwy gysylltu â ni:

Yn ysgrifenedig:


**Rheolwr Cyfathrebu**
**Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru**
**Llywodraeth Cymru**
**Parc Busnes Rhyd-y-car**
**Merthyr Tudful**
**CF48 1UZ**


Neu drwy


**Ffôn:**0300 062 8163
**E-bost**: hiw@wales.gsi.gov.uk
**Ffacs:** 0300 062 8387
**Gwefan:** www.hiw.org.uk



Digidol ISBN 978-1-4734-3943-6


© Hawlfraint y Goron 2015

# Cynnwys


1. Cyflwyniad ........ 2

2. Methodoleg ........ 2

3. Cyd-destun ........ 4

4. Crynodeb ........ 5

5. Canfyddiadau ........ 6

   Profiad y Claf ........ 6

   Cyflenwi Safonau Iechyd a Gofal ........ 9

   Rheolaeth ac Arweinyddiaeth ........ 14

   Ansawdd yr Amgylchedd ........ 17

6. Y Camau Nesaf ........ 18

   Atodiad A ........ 19

## 1. Cyflwyniad

Cynhaliodd Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) arolygiad lle rhoddwyd rhybudd o Bractis Deintyddol Rhiwbeina, yn The Pines, Heol y Forlan, Caerdydd, CF14 4AX, o fewn yr ardal a wasanaethir gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro, ar 9 Mehefin 2015.

Yn ystod yr arolygiad, gwnaethom ystyried ac adolygu'r meysydd canlynol:

- Profiad y claf
- Cyflenwi Safonau Iechyd a Gofal
- Rheolaeth ac arweinyddiaeth
- Ansawdd yr amgylchedd

## 2. Methodoleg

Mae arolygiadau AGIC o bractisau deintyddol cyffredinol yn ceisio sefydlu pa mor dda mae practisau yn bodloni'r Safonau Iechyd a Gofal.[1] Bydd unrhyw ddeintydd sy'n gweithio yn y practis sydd wedi'i gofrestru ag AGIC i ddarparu deintyddiaeth breifat hefyd yn agored i ddarpariaethau Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2008[2] a Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) (Diwygio) 2011.[3] Lle bo'n briodol, rydym yn ystyried sut mae'r practis yn bodloni'r rheoliadau hyn, yn ogystal â Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio 1999, Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Datguddio Meddygol) 2000, ac unrhyw safonau a chanllawiau proffesiynol perthnasol eraill, fel Safonau ar gyfer y Tîm Deintyddol y Cyngor Deintyddol Cyffredinol.

Yn ystod yr arolygiad, gwnaethom adolygu dogfennau a gwybodaeth o nifer o ffynonellau, gan gynnwys:

- Gwybodaeth a gedwir gan AGIC
- Cyfweliadau gyda staff, gan gynnwys deintyddion a staff gweinyddol

---

[1] http://www.wales.nhs.uk/governance-emanual/hafan

[2] http://www.legislation.gov.uk/wsi/2008/1976/contents/made/welsh

[3] http://www.legislation.gov.uk/cy/wsi/2011/2686/contents/made/welsh

- Sgyrsiau gyda staff nyrsio
- Archwilio sampl o gofnodion deintyddol cleifion
- Archwilio polisïau a gweithdrefnau'r practis
- Archwilio offer a'r safle
- Gwybodaeth yn nhaflen wybodaeth y practis ac ar ei wefan (lle bo'n berthnasol)
- Holiaduron cleifion AGIC

Ar ddiwedd pob arolygiad, rydym yn cynnig trosolwg o'n prif ganfyddiadau i gynrychiolwyr y practis deintyddol er mwyn sicrhau eu bod yn derbyn adborth priodol.

Bydd y practis deintyddol a'r bwrdd iechyd yn cael eu hysbysu am unrhyw bryderon brys a allai godi o arolygiadau deintyddol trwy lythyr gweithredu ar unwaith. Bydd unrhyw ganfyddiadau o'r fath yn cael eu nodi, ynghyd ag unrhyw argymhellion eraill a wneir, yn Atodiad A yr adroddiad arolygu hwn.

Mae arolygiadau deintyddol yn cofnodi ciplun o'r safonau a arferir yn y sefydliad yr ymwelir ag ef ar ddiwrnod yr arolygiad.

## 3. Cyd-destun

Mae Practis Deintyddol Rhiwbeina yn The Pines yn  darparu gwasanaethau i gleifion yn ardal Caerdydd. Mae'r practis yn ffurfio rhan o ystod o wasanaethau deintyddol a ddarperir o fewn yr ardal ddaearyddol a adwaenir fel Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro. Mae'n bractis cymysg sy'n darparu gwasanaethau deintyddol preifat a gwasanaethau deintyddol y GIG.

Mae Practis Deintyddol Rhiwbeina yn The Pines yn bractis hyfforddi hefyd, sy'n cynorthwyo deintyddion sydd newydd gymhwyso, ac sydd wrthi'n cyflawni eu blwyddyn gyntaf ym maes deintyddiaeth (ar ôl cwblhau eu gradd prifysgol) trwy ddarparu goruchwyliaeth gan hyfforddwr dynodedig.

Mae tîm y practis yn cynnwys pum deintydd (gan gynnwys perchennog y practis a phedwar deintydd cysylltiol), pedwar hylenydd, therapydd, prif nyrs a chwe nyrs ddeintyddol, rheolwr practis, rheolwr cynorthwyol a phum aelod o staff derbynfa.

## 4. Crynodeb

Gwnaeth AGIC archwilio sut roedd Practis Deintyddol Rhiwbeina yn The Pines yn bodloni’r safonau gofal a amlinellir yn y Safonau Iechyd a Gofal (Ebrill 2015).

Gwnaeth cleifion a oedd wedi gwneud sylwadau yn holiaduron AGIG nodi eu bod yn fodlon ar y gofal roeddent wedi'i dderbyn. Gwnaethom dderbyn nifer o sylwadau a oedd yn canmol y tîm o staff.

Nid oedd manylion ynglŷn â gweithdrefn gwyno'r practis a'r bandiau prisiau ar gyfer gwasanaethau’r GIG wedi'u harddangos er mwyn i gleifion eu gweld. Gwnaethom ofyn i berchennog y practis roi sylw i'r mater hwn.

Gwelsom fod trefniadau ar waith ar gyfer defnyddio'r offer radiograffig pelydr-x mewn ffordd ddiogel.

Roedd offer a chyffuriau a ddefnyddir mewn achos brys ar gael pe bai argyfwng (llewyg). Fodd bynnag, gwnaethom nodi bod angen gwneud gwelliannau ynglŷn â'r system ar gyfer gwirio bod y cyfarpar a’r cyffuriau’n parhau i fod yn addas i'w defnyddio.

Gwnaethom nodi bod y trefniadau a oedd ar waith ar gyfer dadheintio offer deintyddol yn enghraifft o arfer nodedig. Roedd cyfleusterau clinigol yn y practis o safon uchel.

Roedd y sampl o gofnodion deintyddol cleifion a welsom yn dangos bod gofal wedi cael ei gynllunio a'i ddarparu mewn ffordd a oedd yn sicrhau diogelwch a lles cleifion. Fodd bynnag, gwnaethom nodi rhai meysydd yr oedd angen eu gwella yn y maes hwn.

Roedd tîm rheoli yn gyfrifol am reoli'r practis o ddydd i ddydd, ac roedd gan wahanol aelodau’r tîm feysydd dynodedig o gyfrifoldeb.

Roedd amrywiaeth o bolisïau ar waith â'r bwriad o ddarparu gofal a thriniaeth ddiogel ar gyfer cleifion. Rydym wedi argymell bod perchennog y practis yn gwneud trefniadau er mwyn i staff dderbyn hyfforddiant ar amddiffyn oedolion sy'n agored i niwed.

Dywedodd y staff wrthym eu bod yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi yn eu swyddi, ac y gallent leisio unrhyw bryderon sydd ganddynt ynglŷn â’r gwaith wrth uwch staff.

Roedd adeilad y practis i'w weld wedi'i gynnal a'i gadw'n dda iawn, ac wedi'i addurno i safon uchel iawn.

## 5. Canfyddiadau

### *Profiad y Claf*

**Gwnaeth cleifion a oedd wedi gwneud sylwadau yn holiaduron AGIC nodi eu bod yn fodlon ar y gofal roeddent wedi'i dderbyn. Gwnaethom dderbyn nifer o sylwadau a oedd yn canmol y tîm.**

**Nid oedd manylion ynglŷn â gweithdrefn gwyno'r practis a'r bandiau prisiau ar gyfer gwasanaethau'r GIG wedi'u harddangos er mwyn i gleifion eu gweld. Gwnaethom ofyn i berchennog y practis roi sylw i'r mater hwn.**

Cyn ein hymweliad arolygu, gwnaethom ofyn i'r practis wahodd cleifion i gwblhau holiaduron AGIC. Gwnaethom dderbyn cyfanswm o 21 o holiaduron cyflawn, cyn ac ar ddiwrnod, ein harolygiad.

Trwy gyfrwng ein holiaduron, gwnaethom wahodd cleifion i roi sylwadau ar eu profiad o ddefnyddio'r practis. Gwnaeth yr holl gleifion a oedd wedi cwblhau'r holiadur nodi eu bod yn fodlon ar y gwasanaeth roeddent wedi'i dderbyn gan y practis deintyddol, a bod tîm y practis yn rhoi croeso mawr iddynt. Gwnaeth yr holl gleifion a oedd wedi dychwelyd yr holiadur nodi hefyd eu bod wedi derbyn digon o wybodaeth am eu triniaeth.

Gwnaethom wahodd cleifion i wneud unrhyw sylwadau ychwanegol a oedd ganddynt. Mae detholiad o'r sylwadau a gafwyd isod:

> *'Dw i wedi derbyn triniaeth ardderchog a dw i'n derbyn croeso cynnes bob amser.'*
>
> *'Mae'r staff yn gyfeillgar ac yn barod eu cymwynas.*
>
> 'Dw i bob amser yn cael trafferth wrth geisio cysylltu trwy'r ffôn. Nid oes gan bawb fynediad at e-bost.'
>
> *'Dw i'n fodlon iawn ar y gwasanaeth maent yn ei ddarparu yma ... dwi'n arbennig o hoff o'r gwasanaeth e-bost ar gyfer trefnu apwyntiadau brys neu ail-drefnu apwyntiadau.'*
>
> *'Mae The Pines yn cynnig amgylchedd o'r radd flaenaf ar gyfer derbyn triniaeth ddeintyddol.'*

Dywedodd y mwyafrif o'r cleifion a wnaeth sylwadau yn yr holiaduron eu bod yn gwybod sut i gysylltu â gwasanaethau deintyddol y tu allan i oriau. Fodd bynnag, dywedodd rhai cleifion (saith) wrthym naill ai nad oeddent yn gwybod neu nad oeddent yn siŵr. Er bob y rhif cyswllt mewn argyfwng ar gael ar gyfer

cleifion, yn y practis ac ar ei wefan, efallai yr hoffai perchennog y practis ystyried sut y gellir codi ymwybyddiaeth bellach o'r rhif hwn.

Dangosodd ymatebion a dderbyniwyd gennym gan gleifion eu bod, ar y cyfan, yn cael eu gweld yn brydlon ar ddiwrnod eu hapwyntiad. Dywedodd y rhai a oedd wedi profi oedi nad oedd hyn yn digwydd yn aml, ac nad oedd yr oedi wedi peri problem iddynt. Gwnaeth y staff ddisgrifio proses a oedd ar waith ar gyfer hysbysu'r cleifion pe bai eu deintydd yn hwyr neu'n absennol yn annisgwyl ar ddiwrnod eu hapwyntiad. Roedd hyn y golygu y gallai cleifion ddewis gwneud trefniadau eraill pe bai angen.

Nid oedd gan y practis ei system ei hun ar gyfer casglu barn cleifion ar y gwasanaeth a ddarperir gan y practis. Roedd tîm y practis yn derbyn adborth trwy arolygon boddhad cleifion yn flynyddol, sy'n cael eu cynnal ar ei ran gan ddarparwr y cynllun talu am driniaeth ddeintyddol. Dywedwyd wrthym fod hyn yn cynnwys y mwyafrif o'r cleifion sy'n mynychu'r practis. Dywedodd y tîm rheoli wrthym eu bod yn gweithredu ar yr adborth roeddent yn ei dderbyn trwy'r broses hon, a hefyd trwy bryderon a leisiwyd wrthynt yn uniongyrchol. Roedd hyn yn golygu bod mecanwaith ar waith er mwyn i gleifion roi sylwadau ar eu profiad, yn ogystal â chysylltu â thîm y practis yn uniongyrchol ar sail ad hoc. Fodd bynnag, dylai perchennog y practis ystyried sut y gallai cleifion nad ydynt yn defnyddio’r cynllun talu am driniaeth ddeintyddol roi adborth trwy broses fwy ffurfiol.

Roedd gwybodaeth ynglŷn â'r gwasanaethau a ddarperir gan y practis yn cael ei dangos ar set deledu yn yr ystafell aros. Roedd gwybodaeth am y practis hefyd ar gael ar wefan y practis.

Ar adeg ein harolygiad, roedd y practis yn darparu triniaethau'r GIG a thriniaethau deintyddol preifat. Er bod rhestr o brisiau am driniaethau preifat wedi'i harddangos, nid oedd manylion bandiau prisio'r GIG ar gyfer triniaeth wedi'u harddangos yn y practis. Roedd hyn yn golygu bod cleifion y GIG yn gorfod gofyn am wybodaeth ysgrifenedig ynglŷn â faint yr oedd yn rhaid iddynt dalu am eu triniaeth ddeintyddol. Rhaid i berchennog y practis wneud trefniadau addas er mwyn arddangos y wybodaeth hon, yn unol â'r canllawiau a amlinellir gan y Cyngor Deintyddol Cyffredinol.

***Yr hyn sydd angen ei wella***

***Rhaid i berchennog y practis wneud trefniadau addas er mwyn arddangos bandiau prisio ar gyfer gofal a thriniaeth y GIG a ddarperir yn y practis hwn.***

Pan ofynnwyd i gleifion a oeddent yn gwybod sut i wneud cwyn am y gwasanaethau deintyddol roeddent wedi'u derbyn, dywedodd ychydig dros

hanner y cleifion a oedd wedi cwblhau'r holiaduron (13) nad oeddent yn ymwybodol o'r weithdrefn y dylid ei dilyn. Er bod gan y practis bolisi cwyno (pryderon), nid oedd gwybodaeth ar gyfer cleifion wedi'i harddangos yn y practis. Roedd hyn yn golygu  bod yn rhaid i gleifion ofyn am wybodaeth ynglŷn â'r broses gwyno, pe baent yn dymuno gwneud cwyn. Felly, dylai perchennog y practis wneud trefniadau addas er mwyn sicrhau bod gwybodaeth ynglŷn â'r broses gwyno'n cael ei harddangos yn y practis mewn fformat addas.

***Yr hyn sydd angen ei wella***

***Mae'n rhaid i berchennog y practis wneud trefniadau addas er mwyn arddangos, mewn fformat addas, manylion ar gyfer cleifion ynglŷn â sut y gallant wneud cwyn am y gwasanaethau deintyddol a ddarperir yn y practis.***

## *Cyflenwi Safonau Iechyd a Gofal*

**Gwelsom fod trefniadau ar waith ar gyfer defnyddio'r offer radiograffig pelydr-x mewn ffordd ddiogel.**

**Roedd offer a chyffuriau a ddefnyddir mewn achos brys ar gael pe bai argyfwng yn taro claf (llewyg). Fodd bynnag, gwnaethom nodi bod angen gwneud gwelliannau ynglŷn â'r system ar gyfer gwirio bod y cyfarpar a'r cyffuriau'n parhau i fod yn addas i'w defnyddio.**

**Gwnaethom nodi bod y trefniadau a oedd ar waith ar gyfer dadheintio offerynnau deintyddol yn enghraifft o arfer nodedig. Roedd cyfleusterau clinigol yn y practis o safon uchel.**

**Roedd y sampl o gofnodion deintyddol cleifion a welsom yn dangos bod gofal wedi cael ei gynllunio a'i ddarparu mewn ffordd a oedd yn sicrhau diogelwch a lles cleifion. Fodd bynnag, gwnaethom nodi rhai meysydd a oedd angen eu gwella yn y maes hwn.**

### Cyfarpar/Dogfennaeth Radiograffig

Roedd trefniadau ar waith ar gyfer defnyddio offer radiograffig (pelydr-X) mewn ffordd ddiogel. Roedd ffeil amddiffyn rhag ymbelydredd yn cynnwys yr holl ddogfennaeth berthnasol a gwybodaeth am ddefnyddio offer pelydr-X y practis mewn ffordd ddiogel. Roedd tystysgrifau gwiriadau diogelwch ar gael ar gyfer pob peiriant pelydr-X a oedd yn cael ei ddefnyddio yn y practis. Gwelsom dystysgrifau a oedd yn nodi bod hyfforddiant staff ar gynnal sganiau pelydr-X mewn ffordd ddiogel wedi cael ei ddiweddaru.

Roedd sganiau pelydr-X digidol yn cael eu defnyddio, ac roedd y rhain wedi bod yn destun archwiliad ansawdd fel rhan o'r system sicrhau ansawdd. Byddai hyn yn nodi unrhyw faterion ynglŷn ag ansawdd sy'n ailgodi'n rheolaidd, er mwyn gwneud gwelliannau.

### Dadebru a chymorth cyntaf/cyffuriau brys

Roedd gan staff fynediad at offer dadebru a chyffuriau brys pe bai argyfwng claf (llewyg) yn y practis. Roedd cyfres o siartiau llif ar gael er mwyn llywio staff trwy'r camau priodol pe bai argyfwng claf yn cael ei nodi. Roedd y rhain wedi cael eu gosod mewn waledi plastig ar wahân, ynghyd â'r cyffuriau a oedd i'w defnyddio, er mwyn hwyluso mynediad cyflym a rhwydd mewn argyfwng.

Cadarnhaodd uwch staff fod yr holl staff wedi derbyn hyfforddiant ar sut i ymdrin ag argyfyngau meddygol a sut i gyflawni dadebru cardio-pwlmonaidd o fewn y 12 mis diwethaf. Roedd y sampl o dystysgrifau hyfforddi a welsom yn cefnogi hyn.

Gwnaeth uwch staff ddisgrifio proses a oedd ar waith ar gyfer nodi cyffuriau mae eu dyddiad dod i ben wedi mynd heibio, a chael gwared arnynt, yn ogystal â gwiriad rheolaidd o’r cyfarpar brys a gedwir yn y practis. Fodd bynnag, nid oedd cofnodion ysgrifenedig wedi'u cynnal er mwyn dangos bod gwiriadau o'r fath wedi cael eu cyflawni. Pan wnaethom wirio'r cyffuriau brys, gwelsom fod dyddiad dod i ben un eitem wedi mynd heibio. Gwnaethom hysbysu uwch staff am y mater hwn, a gwnaethant gytuno i brynu eitem newydd yn lle'r eitem hon. Yng ngoleuni’n canfyddiadau, rydym yn argymell bod y tîm rheoli yn ailystyried y systemau gwirio presennol, er mwyn iddynt gydymffurfio â'r canllawiau a amlinellir gan y Cyngor Dadebru (DU)[4].

***Yr hyn sydd angen ei wella***

***Dylai perchennog y practis wneud trefniadau addas er mwyn sicrhau bod system effeithiol ar waith (a bod modd dangos hyn ) er mwyn gwneud gwiriad rheolaidd o’r cyffuriau a'r cyfarpar brys yn y practis, yn unol â'r canllawiau a amlinellir gan y Cyngor Dadebru (DU).Dylid gwneud hyn yn benodol gyda’r bwriad o nodi cyffuriau mae eu dyddiad dod i ben yn nesáu, a rhoi cyffuriau newydd yn eu lle yn brydlon, yn ogystal â gwirio bod y cyfarpar yn addas i'w ddefnyddio.***

Roedd llyfrau presgripsiwn yn cael eu storio'n ddiogel pan nad oeddent yn cael eu defnyddio er mwyn rhwystro pobl heb ganiatâd rhag eu defnyddio.

## Trin, storio a gwaredu gwastraff peryglus a gwastraff nad yw'n beryglus

Gwelsom fod trefniadau ar waith ar gyfer trin, storio a gwaredu’r gwastraff a gynhyrchir gan y practis.

Gwelsom fod gwastraff clinigol wedi cael ei ddidoli, ei roi mewn bagiau o liwiau gwahanol a'i storio mewn cynhwysydd o dan glo nes iddo gael ei gasglu gan y contractwr gwaredu gwastraff. Roedd cynwysyddion addas ar gael ar gyfer cadw dannedd a dynnwyd, gan gynnwys y rhai â llenwad amalgam, hyd nes iddynt gael eu gwaredu.

[4]Sefydlwyd Cyngor Dadebru'r DU i hyrwyddo canllawiau dadebru gwyddonol o ansawdd uchel sy'n berthnasol i bawb, ac i gyfrannu at achub bywydau trwy addysg, hyfforddiant, gwaith ymchwil a chydweithrediad.

Roedd y practis wedi cyflwyno systemau ar gyfer defnyddio offer miniog mwy diogel[5] i leihau'r perygl o anafiadau cysylltiedig (brechiadau) gan nodwyddau.

## Dadheintio offer deintyddol a chydymffurfiad â Memorandwm Technegol Iechyd Cymru 01-05 (Diwygiad 1)

Gwelsom fod proses addas ar waith ar gyfer cludo, glanhau a sterileiddio offer deintyddol. Roedd hyn yn cael ei ategu gan gofnodion a oedd yn cadarnhau bod gwiriadau dyddiol wedi'u cynnal o'r cyfarpar a ddefnyddir yn y maes hwn. Roedd tystysgrif gwiriad diogelwch gyfredol ar gael ar gyfer y peiriant awtoclaf.[6]

Roedd gan y practis fan dadheintio neilltuedig, a oedd yn cynnwys dwy ystafell ar wahân. Yn ôl y polisïau a'r canllawiau a amlinellir ym Memorandwm Technegol Iechyd Cymru 01-05[7], y trefniad hwn yw'r opsiwn gorau, gan ei fod yn sicrhau bod mwy o le rhwng yr offer deintyddol budr, a'r offer deintyddol sydd wedi cael eu glanhau neu eu sterileiddio. Roedd y cyfarpar sy'n cael ei ddefnyddio ar gyfer glanhau a sterileiddio’r offer mewn cyflwr da, yn ôl pob golwg. Roedd gan y practis olchwr – diheintydd. Unwaith eto, yn ôl Memorandwm Technegol Iechyd Cymru, hwn yw'r opsiwn a gaiff ei ffafrio ar gyfer glanhau a sterileiddio offer deintyddol. Roeddem o'r farn bod y trefniadau sydd ar waith yn enghraifft o arfer nodedig.

Gwelsom fod yr offer deintyddol wedi’u pecynnu’n briodol er mwyn lleihau’r risg o heintio wrth iddynt gael eu storio. Fodd bynnag, nid oedd y tîm deintyddol yn dilyn trefn o ran cadw cofnod rheolaidd o’r dyddiad prosesu na'r dyddiad terfyn ar gyfer eu defnyddio, ar y pecynnau. Yn ogystal, nid oedd system effeithiol ar waith ar gyfer gwirio dyddiadau terfyn offer deintyddol a oedd mewn pecynnau. . Gwnaethom argymell bod y practis yn cyflwyno system addas er mwyn rhoi stamp dyddiad ar bob offeryn deintyddol sydd wedi'i brosesu, fel yr amlinellir ym

---

[5]Offer miniog mwy diogel yw offer miniog meddygol sydd â nodweddion neu fecanwaith i atal neu leihau’r risg o anaf damweiniol.

[6]Siambr bwysedd yw peiriant awtoclaf a ddefnyddir i sterileiddio offer a chyflenwadau drwy ddefnyddio stêm dirlawn o bwysedd uchel.

[7] Mae dogfen Memorandwm Technegol Iechyd Cymru (WHTM 01-05) (Adolygiad 1) yn rhoi canllawiau i weithwyr proffesiynol ar ddadheintio mewn practisau gofal sylfaenol a phractisau deintyddol cymunedol.

Memorandwm Technegol Iechyd Cymru 01-05, ac i wirio dyddiad terfyn yn rheolaidd ar gyfer yr offer deintyddol sydd mewn pecynnau. .

***Yr hyn sydd angen ei wella***

***Dylai perchennog y practis wneud trefniadau addas er mwyn:***

***1. Sicrhau bod y dyddiad prosesu a'r dyddiad dod i ben ar gyfer offer deintyddol sydd wedi cael eu glanhau a'u sterileiddio'n cael eu dangos yn glir ar y pecynnau cyn iddynt gael eu storio.***

***2. Cyflwyno system addas ar gyfer gwirio dyddiad dod i ben offer deintyddol sydd wedi cael eu prosesu.***

Gwelsom dystiolaeth fod archwiliad rheoli heintiau wedi cael ei gwblhau gan ddefnyddio dull cydnabyddedig yn ystod mis Mawrth 2015. Mae hyn yn galluogi timau deintyddol i asesu eu harfer eu hunain a nodi meysydd sydd angen eu gwella o ganlyniad i ganfyddiadau'r archwiliad. Gallai perchennog y practis ystyried defnyddio'r dull archwilio[8] sydd wedi cael ei ddatblygu'n benodol i'w ddefnyddio gyda Memorandwm Technegol Iechyd Cymru.

## Cyfleusterau Clinigol

Gwnaethom edrych ar gyfleusterau clinigol yr ystafelloedd triniaeth yn y practis. Gwelsom eu bod o safon uchel a'u bod yn cynnwys yr offer perthnasol er mwyn sicrhau diogelwch y cleifion a'r staff. Roedd yr ystafelloedd triniaeth wedi'u dodrefnu er mwyn hwyluso glanhau rhwydd ac effeithiol.

Roedd y cyfarpar a'r offer deintyddol yn lân ac mewn cyflwr da yn ôl pob golwg. Roedd cyfleusterau golchi dwylo a chyfarpar diogelu untro ar gael er mwyn lleihau'r perygl o draws-heintio.

Roedd tystysgrif gwiriad diogelwch ar gael i'r offer cywasgu [9], a gwelsom fod profion dyfeisiadau cludadwy wedi cael eu cynnal ar gyfer offer trydanol cludadwy.

---

[8] http://www.walesdeanery.org/index.php/ên/practice-quality-improvement-programme/national-audit-projects/1676-whtm-01-05.html

[9] Mae cywasgydd yn codi pwysedd aer, at ddiben triniaethau deintyddol.

**Cofnodion cleifion**

Gwnaethom ystyried sampl o 12 o gofnodion deintyddol cleifion. Roedd y sampl hon yn cynnwys cofnodion a oedd wedi cael eu cwblhau gan bob un o'r deintyddion a oedd yn gweithio yn y practis ar adeg ein harolygiad.

Ar adegau pan oedd ffurflenni hanes meddygol wedi cael eu sganio i'r cofnod electronig, canfyddom nad oedd cydlofnod y deintydd i'w weld. Fodd bynnag, rhoddwyd sicrwydd inni fod y deintyddion yn cydlofnodi ffurflenni o'r fath, am inni weld bod hyn wedi'i wneud ar y ffurflenni a oedd yn aros i gael eu sganio. Nid oedd cofnodion electronig bob amser yn dangos bod hanesion meddygol cleifion a ddiweddarwyd wedi cael eu cadarnhau ar lafar gan y deintydd ar bob apwyntiad.

Nid oedd y sampl o gofnodion a welsom yn dangos bod cyngor ynglŷn â rhoi'r gorau i ysmygu wedi cael ei gynnig bob tro.

Er bod y practis wedi paratoi cynlluniau triniaeth ar gyfer cleifion, roedd y sampl a welsom yn rhy fyr ac nid oedd yn ddigon manwl.

Er inni weld rhywfaint o wahaniaeth rhwng arferion y deintyddion (fel y nodwyd uchod), ar y cyfan roedd y cofnodion yn dangos bod gofal wedi cael ei gynllunio a'i ddarparu mewn ffordd a oedd yn sicrhau diogelwch a lles cleifion. Gwnaethom hysbysu perchennog y practis am ein canfyddiadau, a chytunodd yntau fod angen camau unioni ar gyfer y meysydd a nodwyd gennym.

***Yr hyn sydd angen ei wella***

***Rhaid i berchennog y practis wneud trefniadau addas er mwyn sicrhau bod cofnodion deintyddol cleifion yn gyflawn, ac yn cynnwys digon o fanylion yn unol â safonau a chanllawiau proffesiynol.***

## *Rheolaeth ac Arweinyddiaeth*

**Roedd tîm rheoli yn gyfrifol am reoli'r practis o ddydd i ddydd, ac roedd gan wahanol aelodau'r tîm feysydd dynodedig o gyfrifoldeb.**

**Roedd amrywiaeth o bolisïau ar waith â'r bwriad o ddarparu gofal a thriniaeth ddiogel ar gyfer cleifion. Rydym wedi argymell bod perchennog y practis yn gwneud trefniadau addas er mwyn i staff dderbyn hyfforddiant ar amddiffyn oedolion sy'n agored i niwed.**

**Dywedodd y staff wrthym eu bod yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi yn eu swyddi, ac y gallent leisio unrhyw bryderon sydd ganddynt ynglŷn â'r gwaith wrth uwch staff.**

Roedd rheolwraig practis yn gyfrifol am redeg y practis o ddydd i ddydd , ac roedd yn cael ei chynorthwyo gan reolwr cynorthwyol a phrif nyrs – a phob un ohonynt â'i faes o gyfrifoldeb.

Roeddem yn gallu cadarnhau bod yr holl staff clinigol a oedd yn gweithio yn y practis wedi'u cofrestru gyda'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol, a bod ganddynt yswiriant indemniad. Roedd y sampl o gofnodion a welsom yn cefnogi hyn.

Roedd cofnodion hefyd ar gael a oedd yn cadarnhau bod staff clinigol sy'n gweithio yn y practis wedi derbyn brechiadau rhag hepatitis B. Roedd hyn yn golygu bod y staff wedi cymryd camau priodol i sicrhau eu diogelwch eu hunain a diogelwch y cleifion yn hyn o beth. Eglurodd un aelod o'r tîm fod cymorth a chyngor iechyd galwedigaethol ar gael trwy drefniadau gyda'r bwrdd iechyd lleol.

Roedd gan y deintyddion a oedd yn gweithio yn y practis a oedd yn darparu gwasanaethau deintyddol preifat dystysgrifau cofrestru cyfredol gan AGIC. Roedd y rhain wedi'u harddangos ym mhob ystafell driniaeth un unol â'r rheoliadau perthnasol ar gyfer deintyddiaeth breifat.

Roedd gan y practis amrywiaeth o bolisïau a gweithdrefnau perthnasol, gyda'r bwriad o sicrhau bod gofal a thriniaeth cleifion yn cael eu darparu'n ddiogel. Roedd gan y practis bolisi ar waith ar gyfer diogelu oedolion a phlant sy'n agored i niwed . Er bod manylion cyswllt timau diogelu lleol ar gael, gwnaeth yr aelod o'r tîm rheoli a oedd yn gyfrifol am ddiweddaru'r polisi groesawu ein hargymhelliad y dylid cynnwys y manylion hyn yn y polisi er mwyn cyfeirio atynt yn rhwydd. Nid oedd gan y practis arweinydd arfer diogelu a enwir, a dylai

perchennog y practis wneud trefniadau er mwyn dewis person addas, fel yr argymhellir yn y canllawiau a gyhoeddir[10] gan Iechyd Cyhoeddus Cymru. Dywedwyd wrthym, er bod staff y practis wedi mynychu hyfforddiant ar amddiffyn plant, nad oeddent wedi mynychu hyfforddiant penodol ar faterion ynglŷn ag amddiffyn oedolion sy'n agored i niwed. Cadarnhaodd aelod o'r tîm rheoli y byddai trefniadau'n cael eu gwneud er mwyn trefnu hyfforddiant o'r fath.

***Yr hyn sydd angen ei wella***

***Dylai perchennog y practis wneud trefniadau addas i sicrhau bod staff perthnasol y practis yn derbyn hyfforddiant ar amddiffyn oedolion sy'n agored i niwed.***

Dywedodd y staff wrthym fod cyfarfodydd practis yn cael eu cynnal bob mis, ac roeddent yn trafod pynciau a oedd yn berthnasol i'w gwaith. Gwelsom gofnodion cyfarfodydd y practis a oedd yn cefnogi hyn. Dywedodd staff wrthym eu bod yn teimlo bod cyfathrebu da ymhlith tîm y practis . Gwnaethant ddweud wrthym hefyd eu bod yn teimlo eu bod yn derbyn cefnogaeth dda gan dîm y practis, ac y byddent yn gyfforddus wrth leisio unrhyw bryderon sy'n ymwneud â'r gwaith wrth uwch staff.

Eglurodd y staff eu bod yn gallu cael mynediad  at hyfforddiant sy'n berthnasol i'w swydd a'u datblygiad proffesiynol parhaus. Roedd y cofnodion a welsom yn cynnwys tystysgrifau hyfforddiant staff ar gyfer amrywiaeth o bynciau. Roedd hyn yn golygu bod y cleifion yn cael eu trin gan staff sy'n meddu ar y sgiliau priodol a hyfforddiant cyfredol.

Roedd y practis yn darparu gofal a thriniaeth breifat a gofal a thriniaeth y GIG, ac roedd gweithdrefn ysgrifenedig ar waith er mwyn i'r cleifion leisio pryderon (cwynion). Ar y cyfan roedd hyn yn bodloni'r trefniadau ar gyfer gofal a thriniaeth y GIG a gofal a thriniaeth breifat. Fodd bynnag, er mwyn cydymffurfio â *'Gweithio i Wella'*, y trefniadau ar gyfer ymdrin â chwynion am y GIG yng Nghymru, roedd angen i'r weithdrefn gynnwys hawliau cleifion sy'n atgyfeirio eu cwyn at Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru. Yn ogystal, roedd angen i'r weithdrefn nodi bod cleifion yn gallu cael mynediad at gymorth ac eiriolaeth trwy'r Cyngor Iechyd Cymuned lleol, a chynnwys y manylion cyswllt perthnasol. Cytunodd y tîm rheoli i ddiweddaru'r weithdrefn ysgrifenedig â'r wybodaeth hon.

---

[10] Diogelu plant ac oedolion sy'n agored i niwed mewn Ymarfer Deintyddol Cyffredinol – http://www.wales.nhs.uk/sitesplus/888/tudalen/54349

Roedd y cyfrifoldeb am ymdrin â phryderon (cwynion) a dderbyniwyd wedi'i ddynodi i aelod o'r tîm rheoli. Rhoddwyd enghreifftiau o ddysgu trwy bryderon (cwynion), a oedd yn ymwneud â gwelliannau i'r system ffôn ac atgyfeirio cwynion at uwch staff yn brydlon.

Er bod cofnodion wedi cael eu cynnal, nid oedd cofnod ffurfiol, na system, ar gyfer archwilio cwynion dros gyfnod o amser. Yn hytrach, roedd y broses hon yn dibynnu ar wybodaeth y cydlynydd cwynion. Byddai cyflwyno cofnod ysgrifenedig y gallai'r tîm rheoli gael mynediad ato, yn cynorthwyo’r practis i nodi themâu cyffredin sy'n dod i'r amlwg trwy gwynion, pe bai'r cydlynydd yn absennol. Gallai perchennog y practis, felly, ystyried rhoi system addas ar waith er mwyn cryfhau'r trefniadau presennol.

## *Ansawdd yr Amgylchedd*

**Roedd adeilad y practis wedi'i gynnal a'i gadw'n dda iawn, yn ôl pob golwg, ac wedi'i addurno i safon uchel iawn.**

Mae Practis Deintyddol  The Pines yn gweithredu o adeilad a leolir yn yr Eglwys Newydd, ar bwys dinas Caerdydd. Roedd y practis wedi'i gynnal a'i gadw'n dda’n allanol, yn ôl pob golwg.

Roedd gan y practis nifer o leoedd parcio dynodedig ar ei diroedd ei hun, yn union y tu allan i adeilad y practis. Roedd lleoedd parcio ychwanegol ar gael yn y strydoedd cyfagos.

Nid oedd grisiau'n arwain at y brif fynedfa. Roedd hyn yn golygu bod y practis yn addas ar gyfer cleifion sy'n defnyddio cadair olwyn neu gymhorthion cerdded.  Cadarnhaodd staff y dderbynfa eu bod yn cynorthwyo cleifion i agor y drws pe na bai perthynas neu ofalwr gyda'r claf. Roedd yr oriau agor a'r rhif cyswllt mewn argyfwng wedi'u harddangos yn glir wrth brif fynedfa'r practis. Roedd hyn yn golygu bod rhif ar gael i'r cleifion er mwyn iddynt gael cyngor am driniaeth ddeintyddol frys pan fo’r practis ar gau.

Roedd y practis wedi'i addurno i safon uchel iawn yn fewnol, ac yn darparu lle cyfforddus i gleifion wrth iddynt aros i gael eu gweld gan staff y practis. Roedd y practis ar ddau lawr. Roedd derbynfa, ystafell aros ar wahân a phedair ystafell driniaeth ar y llawr daear. Roedd ystafell aros ychwanegol a thair ystafell driniaeth ar y llawr cyntaf, ynghyd â chyfleusterau ar gyfer staff a swyddfeydd. Yn ystod taith o gwmpas y practis, gwelwyd bod y mannau hyn yn lân ac yn daclus dros ben, ac wedi'u goleuo a'u hawyru'n dda. Roedd maint yr ystafelloedd aros i'w weld yn briodol o ystyried nifer yr ystafelloedd triniaeth a nifer y cleifion a oedd yn y practis ar ddiwrnod ein harolygiad.

Roedd tai bach ar gael at ddefnydd cleifion, a oedd yn cynnwys cyfleusterau hygyrch ar gyfer pobl sy'n defnyddio cadair olwyn. Roedd y toiledau'n lân ac yn hylan, ac yn cynnwys cyfleusterau golchi a sychu dwylo addas er mwyn lleihau traws-heintio.

Roedd arwyddion clir at yr allanfeydd tân, a chyfarwyddiadau i'w dilyn pe bai tân wedi'u harddangos. Canfuom fod diffoddwyr tân wedi cael eu gwasanaethu o fewn y 12 mis diwethaf. Roedd hyn yn golygu bod staff a chleifion yn gallu cael eu cyfeirio at fan diogel pe bai tân, a bod gan staff fynediad at gyfarpar diffodd tân addas.

## 6. Y Camau Nesaf

Mae’r arolygiad hwn wedi arwain at yr angen i’r practis deintyddol gwblhau cynllun gwella o ran profiad y claf, cyflenwi safonau iechyd a gofal, a rheolaeth ac arweinyddiaeth. Gellir gweld y manylion hyn yn Atodiad A yr adroddiad hwn.

Dylai’r cynllun gwella nodi’n eglur pryd a sut y bydd y canfyddiadau a nodwyd ym Mhractis Deintyddol Rhiwbeina yn The Pines yn cael sylw, gan gynnwys amserlenni.

Bydd y cynllun gwella, pan gytunir arno, yn cael ei gyhoeddi ar wefan AGIC, ac fe gaiff ei werthuso fel rhan o’r broses arolygu deintyddol barhaus.

*Atodiad A*

## Practis Deintyddol Cyffredinol: Cynllun Gwella

## Practis: Practis Deintyddol Rhiwbeina yn The Pines

## Dyddiad yr Arolygiad: 9 Mehefin 2015

| Rhif y Dudalen | Yr hyn sydd angen ei wella | Cam gweithredu'r practis | Swyddog Cyfrifol | Amserlen |
|---|---|---|---|---|
| | **Profiad y Claf** | | | |
| 7 | Rhaid i berchennog y practis wneud trefniadau addas er mwyn dangos bandiau prisio ar gyfer gofal a thriniaeth y GIG a ddarperir yn y practis hwn.<br>(Safonau Iechyd a Gofal 3.2, 4.2; Safonau'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol ar gyfer y Tîm Deintyddol, Safon 2.4.1) | Mae rhestr brisiau a bandiau triniaethau bellach wedi'u harddangos yn yr ystafell aros.<br>O 21 Awst 2015 ymlaen, ni ddarperir gwasanaethau'r GIG/Gwasanaethau Demograffeg Personol ar safle The Pines. Bydd holl wasanaethau'r GIG/Gwasanaethau Demograffeg Personol a gwasanaethau Deintyddol Sylfaen Blwyddyn Un yn cael eu cynnal ar ein safle yn Rhiwbeina (25-27 Heol y Deri) lle mae digon o wybodaeth ynglŷn â gwasanaethau'r GIG wedi'i harddangos. | Nia Eveson<br>(Rheolwr Cynorthwyol | Ar unwaith |
| 8 | Mae'n rhaid i berchennog y practis wneud trefniadau addas er mwyn arddangos, mewn | I'w arddangos yn yr ystafell aros. | Nia Eveson | Ar unwaith |

| Rhif y Dudalen | Yr hyn sydd angen ei wella | Cam gweithredu'r practis | Swyddog Cyfrifol | Amserlen |
|---|---|---|---|---|
| | ffformat addas, fanylion ar gyfer cleifion ynglŷn â sut y gallant wneud cwyn am y gwasanaethau deintyddol a ddarperir yn y practis.<br><br>(Safonau Iechyd a Gofal 3.2, 6.3; Safonau'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol ar gyfer y Tîm Deintyddol, Safon 5.1.5) | | (Rheolwr Cynorthwyol | |
| | **Cyflenwi Safonau Iechyd a Gofal** | | | |
| 10 | Dylai perchennog y practis wneud trefniadau addas er mwyn sicrhau bod system effeithiol ar waith (a bod modddangos hyn) er mwyn cyflawni gwiriad rheolaidd o'r cyffuriau a'r cyfarpar brys a ddefnyddir yn y practis, yn unol â'r canllawiau a amlinellir gan y Cyngor Dadebru (DU). Dylid gwneud hyn yn benodol er mwyn nodi cyffuriau mae eu dyddiad dod i ben yn nesáu, a rhoi cyffuriau newydd yn eu lle yn brydlon, yn ogystal â gwirio bod y cyfarpar yn addas i'w ddefnyddio.<br><br>(Safonau Iechyd a Gofal, Safon 2.9; Cyngor Dadebru'r DU, 'Primary Care: Minimum equipment and drug lists for cardiopulmonary resuscitation', Adran 3) | Mae gwiriadau sy'n cael eu cofnodi'n cael eu cynnal yn wythnosol yn hytrach nac yn fisol er mwyn nodi unrhyw gyffuriau brys mae eu dyddiad dod i ben yn nesáu. | Sarah Wakeling-Smith<br><br>(Prif Nyrs | Ar unwaith |

| Rhif y Dudalen | Yr hyn sydd angen ei wella | Cam gweithredu'r practis | Swyddog Cyfrifol | Amserlen |
|---|---|---|---|---|
| 11 | Dylai perchennog y practis wneud trefniadau addas er mwyn:<br>1. Sicrhau bod y dyddiad prosesu a'r dyddiad dod i ben ar gyfer offer deintyddol sydd wedi cael eu glanhau a'u sterileiddio'n cael eu dangos yn glir ar y pecynnau cyn iddynt gael eu storio.<br>2. Cyflwyno system addas ar gyfer gwirio dyddiad dod i ben offer deintyddol sydd wedi cael eu prosesu'n rheolaidd.<br>(Safonau Iechyd a Gofal, Safon 2.4; Memorandwm Technegol Iechyd Cymru 01-05, Paragraffau 2.4(k), 2.4(l) a 4.26) | Mae staff yn rhoi stamp clir ar offer deintyddol mewn pecynnau, er mwyn sicrhau bod y wybodaeth yn gwbl amlwg a chlir.<br><br>Bydd archwiliad yn cael ei roi ar waith er mwyn gwirio dyddiad dod i ben offer deintyddol sydd wedi cael eu prosesu. | Sarah Wakeling-Smith<br>(Prif Nyrs<br><br>Sarah Wakeling-Smith<br>(Prif Nyrs | Ar unwaith<br><br>1 Mis ac yn fisol wedyn |
| 13 | Rhaid i berchennog y practis wneud trefniadau addas er mwyn sicrhau bod cofnodion deintyddol cleifion yn gyflawn ac yn cynnwys digon o fanylder, yn unol â safonau a chanllawiau proffesiynol.<br>(Safonau Iechyd a Gofal, Safon 3.5; Safonau'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol ar gyfer y Tîm Deintyddol, Safon 4.1.1) | Bydd archwiliad yn cael ei roi ar waith er mwyn gwirio bod cofnodion deintyddol cleifion yn y practis yn gyflawn yn rheolaidd, a’u bod yn cynnwysdigon o fanylion, yn unol â safonau a chanllawiau proffesiynol. | Nia Eveson<br>(Rheolwr Cynorthywol) | 1 Mis ac yn fisol wedyn |
| | Rheolaeth ac Arweinyddiaeth | | | |

| Rhif y Dudalen | Yr hyn sydd angen ei wella | Cam gweithredu'r practis | Swyddog Cyfrifol | Amserlen |
|---|---|---|---|---|
| 15 | Dylai perchennog y practis wneud trefniadau addas i sicrhau bod staff perthnasol y practis yn derbyn hyfforddiant ar amddiffyn oedolion sy'n agored i niwed.<br>(Safonau Iechyd a Gofal, Safon 2.7) | Mae hyfforddiant mewnol wedi'i drefnu gyda Denplan ar gyfer holl staff y practis ar 18 Medi 2015. | Nick Claydon | 3 mis |
| | Ansawdd yr Amgylchedd | | | |
| | Dim byd wedi'i nodi | | | |

**Cynrychiolydd y practis:**

**Enw (llythrennau bras):** **Nia Evans** **Sarah Wakeling Smith**

**Teitl:** **Rheolwr Cynorthwyol y Practis** **Prif Nyrs Deintyddol**

**Dyddiad:** **30/06/15**